## Can 6 - Dyma'r baban!

1.Dyma'r baban

Mae gennym faban,

Mae yn fachgen bach arbennig iawn,

Mae'n rhyfeddol

Ac o mor wyrthiol

Mae yn fachgen bach arbennig iawn.

2. Dyma'r baban

Mae ganddynt faban………Fel yr uchod…

3. Dyma'r baban

Fe gawsoch faban………

## Can 7 -Doethion Dri

Doethion dri,

Dawnus ydym ni,

Gwylio'r sêr yw'n talent ni,

Seren hardd

Yn y nen

I ble bydd yn ein harwain?

Doethion dri,

Cytuno'r ydym ni,

Rhyfedd iawn yw'r seren fry.

Ble, o ble

Y cawn ni

Weld y baban bach Iesu?

## Addolgan

Fe roes y doethion anrhegion i'r crud
Iesu Grist, Brenin byd,
Fe roes y doethion anrhegion i'r crud
Crist y Brenin bach.
Iesu……….

Canai'r bugeiliaid am gariad i'r crud
Iesu Grist, Brenin byd
Canai'r bugeiliad am gariad i'r crud
Crist y Brenin bach.

Côr angylion yn moli'r crud
Iesu Grist, Brenin byd
Côr angylion yn moli'r crud
Crist y Brenin bach.

Ymunwn nawr i addoli'r crud
Iesu Grist, Brenin byd,
Ymunwn nawr i addoli'r crud,
Crist y Brenin bach.

# CYNGERDD NADOLIG 2024

## Can 8 - Daethom i weld y baban…..

Daethom i weld y baban

Daethom i weled Brenin y byd,

Fe garwn gwrdd â'r baban

Iesu yn ei grud.

Fe welsom gôr angylion

Yn canu uwch y crud,

Canu am eni'r baban,

Daeth rhyfeddod gwyrthiol i'r byd…

## Can 9 -Haleliwia

Haleliwia, Cân Haleliwia

Canwn glod i Dduw,

Haleliwia, Cân Haleliwia,

Penblwydd Iesu yw.

Curo'ch dwylo, taro'ch traed,

Canwn glod yn awr,

Dathlu geni Crist sydd rhaid,

Ei gariad Ef sy'n fawr….

**Can 1 -Cnoc Cnoc!**

Cnoc cnoc

Cnoc ar y drws

Cnoc Cnoc

Oes llety ar gael?

Cnoc cnoc

Cnoc ar y drws

Mae angen llety arnom.

Tair ystafell sydd,

Mae pob 'stafell arall yn llawn,

Tair ystafell sydd,

Dyna'r cyfan sydd gen i!

Dwy ystafell sydd…

Un ystafell sydd…

**Can 2 -Heno**

(O) dawel ddinas Bethlehem,

Yn yr awyr dlos

Rhyfeddodau welwch chi

Yn nyfnder nos.

Heno, heno

Bydd rhyfeddodau'n digwydd,

Heno, heno

Rhyfeddodau lu…

O dawel ddinas Bethlehem

**Can 3 - Can Gwr/Gwraig y llety**

Mae'r gwesty yma'n brysur, brysur!

Mae'r gwesty yma yn llawn dop!

Rwy'n teimlo 'mod i bron a drysu,

Mae'r ymwelwyr yma yn ddi-stop!

Prysur, prysur ydw i,

Pobol sydd o'm cwmpas i

Wedi dod o hyd i lety clyd,

Does dim lle i symud

A'r plant sydd o mor swnllyd!

Mae'n anrhefn ar y stryd!

**Can 4 -Cnoc cnoc!**

Cnoc cnoc

Cnoc ar y drws

Cnoc cnoc

Oes llety ar gael?

Cnoc cnoc

Cnoc ar y drws

Mae angen llety arnom!

(Cnoc cnoc – Mair a Joseff)

Does dim lle-

Does dim lle, mae'n flin gen i!

Does dim lle

Mae y llety'n llawn!

**Can 5 -Si lwli**

Mae'n noson oer

Ry' ni'n glyd fan hyn

Yma'n y stabl tlawd.

Wedi blino'n lan

Ry' ni'n glyd fan hyn

Yma'n y stabl tlawd.

Cwsg yn bêr,

Dan y sêr,

Byddaf i

Gyda thi,

Cwsg yn bêr,

Dan y sêr,

Cwsg nes daw toriad y wawr.